Datganiad Grant Amddifadedd
YSGOL GYFUN ABERAERON

Dyrennir y Grant Amddifadedd Disgyblion (GAD) i ysgolion â disgyblion sy'n dod o deuluoedd incwm isel ac y gwyddys eu bod ar hyn o bryd yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim (h-PYDd) a disgyblion sydd wedi 'derbyn gofal' yn barhaus am fwy na chwe mis (Plant Mewn Gofal).

Disgwylir i ysgolion ddefnyddio'r cyllid hwn i'r eithaf i gyflwyno strategaethau cynaliadwy fydd yn arwain yn gyflym at newidiadau i ddysgwyr sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim neu sy'n PMG.

Fel ysgol rydym wedi cytuno ar y tri cham a ganlyn:

Nodi'r grŵpiau targed o ddisgyblion, eu nodweddion a'u hanghenion dysgu

Cynllunio ymyraethau sy'n gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau

Monitro a gwerthuso effaith yr adnoddau

Yn 2016-17, darparwyd i Ysgol Gyfun Aberaeron ddyraniad Grant Amddifadedd Disgyblion o £49,560

Yn Ysgol Gyfun Aberaeron mae gennym gynllun cynhwysfawr, sydd wedi'i gytuno a'i fonitro gan Awdurdod Lleol Ceredigion ac ERW, i hyrwyddo cynnydd a lleihau effaith rhwystrau i ddysgu i fyfyrwyr sy'n gymwys ar gyfer y cyllid hwn.

Rydym wedi defnyddio'r cyllid sydd ar gael i:

- wella dysgu ac addysgu drwy ddarparu rhaglen gefnogi.
- ddarparu rhaglenni ymyrraeth a chymorth cynaladwy y profwyd eu bod yn cael yr effaith fwyaf.
- fireinio systemau olrhain data i nodi anghenion dysgwyr y grwpiau hyn, tracio eu cynnydd tuag at dargedu, ac i fonitro effaith ymyraethau yn effeithiol.
- weithio mewn partneriaeth ag ysgolion eraill, y gymuned a sefydliadau eraill
- gwella presenoldeb y grŵpiau targed drwy ddefnyddio ymyraethau penodol
- datblygu capasiti arweinyddiaeth i adnabod a gwerthuso effaith y camau hyn yn nhermau gwella ansawdd y ddarpariaeth a deilliannau y disgyblion yn y grwpiau targed, ac i ymyrryd yn effeithiol ac yn amserol pan mae'r cynnydd yn annigonol